# Bydd yn rhaid i lywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i achub bywydau mwy o fabanod a chefnogi rhieni mewn profedigaeth



sands

**Achub bywydau babanod.**
**Cefnogi teuluoedd mewn profedigaeth.**

Sands. Elusen wedi'i Chofrestru yn yr Alban SC042789, Cymru a Lloegr 299679. Rydym hefyd yn gweithredu yng Ngogledd Iwerddon.
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant Rhif: 2212082. Cyfeiriad Cofrestredig: 10-18 Union Street, London, SE1 1SZ.

# Cyflwyniad

**Wrth nesáu at etholiad y Senedd ym mis Mai 2026, mae grŵp o rieni mewn profedigaeth, gyda chymorth Sands, wedi mynd ati yn ystod wythnos ymwybyddiaeth colli babi eleni (9-15 Hydref) i lansio deiseb wedi'i chyfeirio at Lywodraeth nesaf Cymru. Mae'r ddeiseb yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i fabwysiadu targedau uchelgeisiol i achub bywydau mwy o fabanod yng Nghymru a sicrhau y gall pob teulu mewn profedigaeth gael y gofal mewn profedigaeth y bydd ei angen arno.**

# Pam y dylai'r llywodraeth fabwysiadu targedau?

Er gwaethaf gostyngiad cyffredinol mewn cyfraddau marw-enedigaethau a marwolaethau newyddenedigol yng Nghymru ers 2010, nid oes digon o gynnydd cyson wedi cael ei wneud o ran lleihau nifer y marwolaethau. Mewn cyferbyniad â hynny, mae cynnydd mwy parhaus wedi cael ei wneud yn Lloegr, lle y gwnaeth y llywodraeth fabwysiadu uchelgeisiau diogelwch mamolaeth cenedlaethol yn 2015.

Er na chaiff yr uchelgeisiau eu cyflawni'n llawn, maent wedi helpu i sicrhau bod penderfyniadau polisi yn canolbwyntio ar leihau cyfraddau yn Lloegr.

**Erbyn 2022, roedd y gyfradd marw-enedigaethau yn Lloegr**

**23.5 % yn is**

**na'r gyfradd yn 2010 ac roedd y gyfradd marwolaethau newyddenedigol**

**25.0 % yn is.**

**Mae Uned Polisi ar y Cyd Sands a Tommy's wedi cynnig targedau newydd i bob un o wledydd y DU eu mabwysiadu gyda'i gilydd, gan anelu at eu cyrraedd erbyn 2035. Mae hyn yn cynnwys:**

- Cyfradd marw-enedigaethau o 2.0 fesul 1,000 o gyfanswm y genedigaethau.
- Cyfradd marwolaethau newyddenedigol o 0.5 fesul 1,000 o enedigaethau byw ar gyfer
  babanod a gaiff eu geni ar ôl cyfnod beichiogrwydd o 24 wythnos a throsodd.
- Dileu anghydraddoldebau yn y canlyniadau hyn ar sail ethnigrwydd ac amddifadedd.

Mae'r targedau hyn yn seiliedig ar gyrraedd yr un lefelau â'r gwledydd â'r perfformiad gorau yn Ewrop a,phe baent yn cael eu cyrraedd, byddent yn cael **effaith sylweddol.**



**Gallai dros**

**1,000 o fabanod yng Nghymru fod wedi goroesi**

**pe bai'r cyfraddau marw-enedigaethau a marwolaethau newyddenedigol wedi bod ar yr un lefel â'r gwledydd â'r perfformiad gorau yn Ewrop rhwng 2019 a 2023.[1]**

## Negeseuon allweddol

- Ceir **diffyg cynnydd parhaus** o ran gostwng cyfraddau marw-enedigaethau a marwolaethau newyddenedigol yng Nghymru.
- Mae Uned Polisi ar y Cyd Sands a Tommy's wedi cynnig targedau uchelgeisiol i **gyrraedd yr un lefelau â'r gwledydd â'r perfformiad gorau** yn Ewrop.

1. Uned Polisi ar y Cyd Sands a Tommy's: Towards the best: Future maternity safety ambitions to save more babies' lives
2. Dadansoddiad o ddata Euro Peristat a SYG gan Uned Polisi ar y Cyd Sands a Tommy's.

# Gwella cymorth i rieni mewn profedigaeth yng Nghymru

**Pan fydd teulu'n colli babi, rhaid iddo allu cael gafael ar ofal mewn profedigaeth o ansawdd da. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ac atgyfeirio at gymorth seicolegol arbenigol os bydd angen.**

Gall ble mae rhywun yn byw a'i gefndir effeithio ar y tebygolrwydd y bydd yn cael y gofal a'r cymorth y bydd eu hangen arno. Bydd yn rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i helpu byrddau iechyd i roi Llwybr Gofal mewn Profedigaeth Cenedlaethol i Gymru ar waith.

Ar ôl colli beichiogrwydd neu golli babi, mae'n bosibl y bydd rhai rhieni mewn profedigaeth yn datblygu anghenion iechyd meddwl gan olygu y bydd angen iddynt gael cymorth seicolegol arbenigol. **Ar hyn o bryd, yr unig fwrdd iechyd sydd â llwybr cymorth seicolegol arbenigol ar gyfer colli babi yw Caerdydd a'r Fro.** Ym mis Gorffennaf 2025, cyhoeddodd y Llywodraeth gynlluniau i werthuso'r gwasanaethau cymorth seicolegol presennol sydd ar gael yng Nghaerdydd a'u dyblygu ledled Cymru. Rhaid i'r broses werthuso a dyblygu hon gynnwys y llwybr colli babi arbenigol.

## Negeseuon allweddol

- Rhaid i bob rhiant mewn profedigaeth allu **cael gafael ar ofal mewn profedigaeth o ansawdd da.**
- Bydd yn rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i **helpu byrddau iechyd** i **roi Llwybr Gofal mewn Profedigaeth Cenedlaethol i Gymru ar waith**.
- Bydd yn rhaid i'r Llywodraeth nesaf yng Nghymru ymrwymo i **werthuso'r llwybr cymorth seicolegol arbenigol ar gyfer colli babi** yng Nghaerdydd a'r Fro a'i ehangu i bob bwrdd iechyd ledled Cymru.



## Sut y gallwch chi helpu

**Ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol** – Jeremy Miles AS – a'r Gweinidog dros Iechyd Menywod – Sarah Murphy AS – yn codi'r materion hyn. Byddem yn fwy na pharod i ddarparu llythyr templed.

**Cysylltu â llefarydd eich plaid dros iechyd** – a gofyn iddo ymrwymo i fabwysiadu targedu i achub bywydau babanod a sicrhau y gall pob rhiant mewn profedigaeth yng Nghymru gael mynediad at ofal mewn profedigaeth o ansawdd da ym maniffesto eich plaid. Gallwn ddarparu llythyr templed.

**Cyflwyno cwestiynau seneddol ysgrifenedig neu godi'r ymgyrch yn y siambr** – gallwn eich cefnogi drwy rannu papurau briffio ac awgrymiadau ar gyfer cwestiynau.